

ELLIS, PHILIP CONSTABLE (1822 - 1900), clericwr

Enw: Philip Constable Ellis
Dyddiad geni: 1822
Dyddiad marw: 1900
Rhiant: John Ellis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clericwr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

ail fab John Ellis, Rhyllech, Pwllheli (J. E. Griffith, *Pedigrees*, 398). Aeth i Goleg Iesu, Rhydychen, yn 1840 (o ysgol Biwmares), graddiodd yno yn 1843 (meddai ef, ond 1844 sydd gan Foster), ac yn Rhydychen daeth yn drwm dan ddylanwad Mudiad Rhydychen - efe wedyn oedd un o arloeswyr pennaf y mudiad hwnnw yng Ngwynedd. Urddwyd ef yn 1846, ac yn 1847 aeth i Gaerdybi yn guraad i Charles Williams (pennaeth Coleg Iesu wedyn). Penodwyd ef yn 1850 i ofalaeth Llanfaes a Phenmon, ac yn 1862 i reithoriaeth Llanfairfechan, yno y bu (gan wrthod deirgwaith ei godi'n ddeon yng Nghymru) hyd ei farwolaeth 10 Mai 1900. Arddelodd fawr sêl yn hyrwyddo cynnal wasanaeth beunyddiol yn yr eglwysi, eu hailddodrefnu, a newid eu defodau. Mor ddigymrodedd oedd ei gatholigiaeth fel na fynnai gydweithredu mewn unrhyw fodd ag Ymneilltuwyr - yn hyn o beth, anghytunai â rhai offeiriaid hyn nag ef; heblaw hynny, bu mewn dadl bur boeth â'i esgob, Christopher Bethell. Yr oedd Bethell ei hunan yn Eglwyswr 'Uchel,' ond cyhuddodd Ellis o godi cynnwrf, drwg ei effeithiau. Ni lwyddodd, fodd bynnag, i'w ddisgyblu, yn wyneb y gefnogaeth a gafodd Ellis gan nifer o glerigwyr dylanwadol yr esgobaeth.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Foster, *Alumni Oxonienses: the members of the University of Oxford*

Crockford's Clerical Directory

Yr Haul, 1901, 1902, 1903

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q7183511

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jenkins, R. T., (1953). ELLIS, PHILIP CONSTABLE (1822 - 1900), clericwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ELLI-CON-1822>

Copy

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government